

## RHESTR WIRIO YNGHYLCH YR WYBODAETH ANGENRHEIDIOL AR GYFER CAIS CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

**Sylwer:** Dylai'r holl gynlluniau gael eu lluniadu yn ôl graddfa **fetrig** briodol (rhaid dangos y raddfa ar bob un o'r cynlluniau), er mwyn cynnwys y pwynt gogleddol, dyddiad, rhif y lluniad a dylid sicrhau bod y newidiadau neu'r diwygiadau wedi eu nodi'n glir. (Rydym wedi amgáu enghreifftiau nodweddiadol o'r cynlluniau a'r lluniadau sydd eu hangen arnom.).

### Cynlluniau lleoliad

- Rhaid eu seilio ar Arolwg yr Ordnans.
- Graddfa: 1:1250 neu 1:2500.
- Rhaid amlinellu safle'r cais mewn **coch**, a dangos mewn **glas** unrhyw dir cyfagos sydd ym meddiant neu sy'n cael ei reoli gan y ceisydd.
- Dangos yr holl eiddo cyfagos a'r ardal gyfagos oddi amgylch, gan gynnwys y ffyrdd, ynghylch ag enwau'r strydoedd a rhifau'r eiddo.
- Mae rhan o fap OS ar gael i'w phrynu gennym ar gyfer y diben hwn. Byddwchystal â'n ffonio ar 01437 764551 er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

### Llunwedd y Safle Presennol

- Graddfa: 1:200.
- Dangos y safle cyfan gan gynnwys yr holl adeiladau, coed, cloddiau, gerddi, manau agored a manau parcio.
- Dangos cadwraeth natur, bioamrywiaeth, draeniau a'r arweddion naturiol eraill os yw hynny'n briodol.
- Dangos y gwasanaethau sydd yno'n barod.

### Llunwedd Arfaethedig y Safle

- Graddfa: 1:200.
- Dangos lleoliad unrhyw estyniad neu adeilad newydd
- Dangos y newidiadau mewn lefelau, cynigion ynghylch y dirwedd, gan gynnwys y coed a'r cloddiau y ceir gwared â hwy, y rhai newydd a blennir neu'r manau agored ag arwynebau caled newydd arnynt a'r triniaethau terfyn.
- Dangos manylion llawn y terfynau safle newydd neu newidiedig, fel waliau, ffensys neu gloddiau.
- Dangos y cynigion yng nghyd-destun yr adeiladau cyfagos.
- Dangos y fynedfa i gerbydau at y briffordd, gan gynnwys manau parcio a throi.

### Gweddlluniau

- Graddfa: 1:50 neu 1:100.
- Dangos y gwaith arfaethedig mewn perthynas â'r hyn sydd yno'n barod.
- Dangos pob ochr o'r adeilad a effeithir gan y gwaith arfaethedig a rhoi manylion defnyddiau a ffurf yr adeilad arfaethedig a defnydd a chabolwaith y ffenestri a'r drysau.
- Rhaid iddynt fod yn fanwl gywir a rhoi digonedd o fanylion ynghylch lled y ffenestri a bargodiad y bondo ac ati.
- Os bydd y gweddllun arfaethedig am y pared ag eiddo arall, dylid dangos y ddau weddln.

### **Cynlluniau Llwr**

- Graddfa: 1:50 neu 1:100.
- Yn achos estyniad, rhaid dangos llunwedd llwr yr adeilad presennol er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau, a dangos yn glir y gwaith newydd. Dangos y cynlluniau llwr yng nghyd-destun yr adeiladau cyfagos, os yw hynny'n briodol.

### **Trawsluniau**

- Graddfa: 1:50 neu 1:100 (yn gyson â'r cynlluniau llwr), gan ddangos y lefelau.

### **Datganiad dyluniad**

- Dweud beth yw egwyddorion a chysyniad y dyluniad, ac egluro sut mae'r rhain yn cael eu hamlygu yn y datblygiad.
- Gwneud gwerthusiad cyd-destunol ynghylch sut mae'r dyluniad yn dwyn perthynas â'r safle a'r ardal oddi amgylch.
- Dweud sut mae'r datblygiad yn amlygu'r polisi yn y Cynllun Datblygu a'r Cyfarwyddyd Cynlluniau Atodol (CCA).

### **Amrywiol** (i'w cynnwys lle y bo'n briodol)

- Yr agweddau ar effeithlonrwydd a defnyddio ynni.
- Rheoli gwastraff ar safle.
- Y goblygiadau a'r ymrwymadau ynghylch cynnal a chadw at y dyfodol.
- Lluniadau a phersbectifau 3D, yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cynigion ynghylch datblygiadau ar raddfa fawr neu gymhleth.

**I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth angenrheidiol am y dyluniad, byddwchystal â'n ffonio ar 01437 764551.**

Er mwyn gwaith adeiladu, gall hyn olygu cael dau fath o ganiatâd:

- Caniatâd cynllunio ac/neu ganiatâd adeilad rhestredig
- Cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu

Yn aml bydd pobl yn drysu rhwng y caniatadau hyn, ac yn credu taw un ydynt. Ond nid felly y mae hi. Os bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, a bod eich cynnig yn ymwneud â chodi adeilad, yna mae'n bur debyg, cyn ichi gychwyn arni, y bydd rhaid ichi gael caniatâd o dan y rheoliadau adeiladu yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Byddwchystal â ffonio'r tîm Rheoli Adeiladu ar 01437 764551.